Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

# Ysgrifennu Academaidd



*Trawsnewid Addysg; Trawsnewid Bywydau*
*Transforming Education; Transforming Lives*

www.uwtsd.ac.uk

O na byddai rhagor o'r boblogaeth ifanc yn cael eu cymell i ymroi i'r gweithgarwch dyddiol o geisio mewnbwn llenyddol addysgiadol a allai godi cywirdeb eu canfyddiadau ynghylch eu hiechyd.

Dengys astudiaethau gan World Youth (2019) fod pobl ifanc yn elwa o ddarllen am eu hiechyd.

Yn y bôn felly, bobl, mae angen i chi ddarllen rhagor!

# Defnyddio Cymraeg ffurfiol

- Mae iaith academaidd yn fwy ffurfiol na'r iaith a ddefnyddir mewn sgyrsiau pob dydd, negeseuon e-bost, cyfryngau cymdeithasol neu gylchgronau.
- Ni ddylai swnio'n 'sgyrsiol'
- Mae hefyd yn osgoi bratiaith ac ymadroddion llafar e.e. 'roedd y ddadl dros ben llestri braidd.'
- Copïwch arddull papurau academaidd i addasu i'r iaith hon



# Anelwch am eglurder

- Ysgrifennwch fel bod eich darllenydd yn gallu dilyn yn hawdd yr hyn rydych chi'n ceisio ei ddweud; arweiniwch eich darllenydd gerfydd eich llaw
- Peidiwch â defnyddio geiriau hir a jargon technegol dim ond er mwyn creu argraff
- Gwiriwch a yw eich brawddegau'n anodd eu dilyn am eu bod mor hir a chymhleth
- Dylech osgoi iaith hen ffasiwn, brawddegau neu briod-ddulliau astrus – maen nhw'n gallu mynd â'r cyfan o'ch cyfrif geiriau a gwneud eich dadl yn aneglur



# Dysgwch sut i ddefnyddio terminoleg arbenigol

- Os nad ydych chi'n gyfarwydd â therminoleg arbenigol, chwiliwch am esboniadau o'r rhain mewn gwerslyfrau neu restrau termau cyflwyniadol
- Talwch sylw i'r modd mae'r termau hyn yn cael eu cyflwyno mewn llyfrau ac erthyglau – nodwch y ffurfiau gwahanol a ddefnyddir, megis ffurfiau enwau a berfau, ac amserau'r gorffennol
- Peidiwch â defnyddio termau yn eich gwaith ysgrifennu nad ydych chi'n eu deall eich hun – mae'n well eu hysgrifennu yn eich geiriau eich hun na swnio fel pe na baech yn deall yr hyn rydych chi'n ei ddweud

# Dylech osgoi byrfoddau a thalfyriadau

Mewn aseiniadau, defnyddiwch y ffurf lawn:

- ‘er enghraifft’ yn hytrach nag ‘e.e.’
- ‘hynny yw’ yn hytrach na ‘h.y.’
- ‘ac yn y blaen’ yn hytrach nag ‘ayb’



# Defnyddiwch iaith amhersonol a goddefol

Mae'n well gan y rhan fwyaf o gyrsiau eich bod yn osgoi rhagenwau personol megis 'fi'/'ni' a 'chi'. Yn hytrach, dechreuir brawddegau gan ddefnyddio'r amhersonol, er enghraifft:

- Gellir gweld bod…
- Mae nifer o …
- Canfuwyd bod…
- Gellir dadlau bod…

Mae hyn hefyd yn enghraifft o osgoi rhoi barn glir a phendant– peidio ag ymroi i un safbwynt



# Byddwch yn amhersonol

- Mae'n bwysig nad yw eich ymwneud personol chi â'r pwnc yn cuddio'r hyn rydych chi'n ei ddweud
- Mae'r defnydd o'r modd goddefol yn helpu cynnal elfen o wrthrychedd
- 'Gwnaethom ni ddosbarthu taflenni gwaith i'r disgyblion' (gweithredol)
- 'Dosbarthwyd taflenni gwaith i'r disgyblion' (goddefol)






# Byddwch yn betrus



Yn gyffredinol mae ysgrifennu academaidd yn swnio’n bwyllog. Mae ysgrifenwyr yn nodi eu bod yn ymwybodol nad oes unrhyw beth yn gwbl sicr oherwydd gallai ymchwil pellach herio’r hyn a ddeellir ar hyn o bryd. Maen nhw’n defnyddio geiriau sy’n ymddangos fel petaent yn mynegi’r diffyg sicrwydd hwn, megis:

- Mae’n ymddangos; ymddengys; tuedda; gall; gallai; yn ôl pob golwg.

Maen nhw’n defnyddio ymadroddion megis:

- Mewn rhai achosion, mae…
- Awgryma’r dystiolaeth fod…

Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant University of Wales Trinity Saint David
Yr Athrofa Institute of Education Addysg i Gymru Education for Wales
APLP PDPA Partneriaeth Dysgu Proffesiynol Yr Athrofa Yr Athrofa Professional Learning Partnership

# Byddwch yn wrthrychol




- Mae ysgrifennu academaidd yn osgoi barnau goddrychol ac felly mae hefyd yn osgoi geiriau megis ‘dymunol’, ‘ardderchog’, ‘buddiol’, ‘arferol’, ‘normal’ neu ‘naturiol’, os y’u defnyddir mewn ffordd a allai fod yn oddrychol neu’n ddiwylliannol benodol – gall dealltwriaeth y darllenydd o’r geiriau hyn fod yn wahanol i’ch dealltwriaeth chi
- Derbyniwch nad oes gwirionedd
- Osgowch gyffredinoli ysgubol
- Cwestiynwch eich hun yn barhaus o ran a allai eich gwaith gael ei ddehongli fel gwaith rhagfarnllyd

# Byddwch yn gryno

- Golygwch unrhyw eiriau ac ymadroddion diangen
- Ewch yn syth at y pwynt h.y. beth ydych chi eisiau ei ddweud?
- Gwnewch eich pwynt yn glir



# Byddwch yn fanwl gywir

Enghraifft o frawddeg amwys

Nid oedd rhai pobl yn hoffi'r syniad ar y pryd a gwnaethon nhw wneud i'r gwleidyddion ei atal, ond yna ymosododd ef arno ef yn gyhoeddus.



# Pam ei bod yn amwys?

- ‘rhai pobl’ – pwy yn union?
- ‘y syniad’ – pa syniad?
- ‘ar y pryd’ – pryd? dyddiad?
- ‘y gwleidyddion’ – yr holl wleidyddion? neu grŵp penodol? neu blaid wleidyddol?
- ‘wneud i’r gwleidyddion’ – sut gwnaethon nhw ‘wneud’ iddynt
- ‘ei atal’ – atal beth? sut cafodd ei atal?
- ‘nid oedd rhai pobl yn hoffi’r syniad’ – pam hynny?
- ‘ef’ ac ‘ef’ – pwy yn union?

# Byddwch yn hyderus

Mae'r aseiniad hwn yn ceisio dadansoddi/ gobeithio dangos/ ceisio dadlau…

Pan fyddwch yn gwneud hyn rydych yn awgrymu efallai na fyddwch yn gallu gwneud yr hyn yr ydych wedi bwriadu ei wneud

Rydych yn gwahodd y darllenydd i farnu ar lwyddiant neu fethiant eich ymgais

Mae'n well datgan yn hyderus 'Bydd yr aseiniad hwn yn dadansoddi'n feirniadol safbwynt cystadleuol ar …'



# Peidiwch ag ymddiheuro

Peidiwch ag ymddiheuro am y rhesymau am unrhyw wendidau y credwch y gallai fod yn eich gwaith, megis eich bod wedi cael y pwnc yn anodd neu heb gael amser i ysgrifennu casgliad.

Ysgrifennwch yn hyderus, hyd yn oed os nad ydych yn teimlo hynny.






# Cyfarch y darllenydd

Peidiwch â gofyn cwestiynau i ddarllenwyr a dweud wrthynt beth i'w feddwl neu ei wneud. Peidiwch â defnyddio cwestiynau rhethregol.



# Dyfyniadau

- Dylech osgoi dibynnu’n ormodol ar ddyfyniadau
- Peidiwch â chopïo darnau mawr o destun; naill ai defnyddiwch nhw ar ffurf dyfyniad, fel y bo’n briodol, neu eu haralleirio
- Peidiwch â gorddefnyddio dyfyniadau – dylid eu defnyddio i gefnogi eich dadl ac nid yn lle eich ysgrifennu chi

# Peidiwch â defnyddio cysyllteiriau mewn mannau anghywir

Ac eithrio mewn ysgrifennu creadigol, ni ddefnyddir y geiriau canlynol ar ddechrau brawddegau:

- neu
- a/ac
- ond
- eto



# Rhifau

- Fel arfer, ysgrifennir rhifau o dan gant yn llawn mewn ysgrifennu anwyddonol:
- Tri deg un y cant
- Un deg naw mewn nifer
- Fodd bynnag, cedwir at ffigurau mewn gwaith ystadegol a gwyddonol:
- 31 y cant
- 7.3 newton
- O.54 mg



# Strwythuredig

- Dylai ysgrifennu academaidd fod mewn trefn resymegol
- Dylai'r cyflwyniad roi rhagolwg o’r gwaith, a dylai’r casgliad ei grynhoi
- Dylid defnyddio paragraffau i drefnu syniadau/paragraffau
- Mae angen amser i gynllunio'r ysgrifennu fel y gallwch weithio allan y strwythur cyn ysgrifennu

# Strwythuredig



Cyflwyniad (10%)

- daliwch sylw'r darllenydd drwy gyflwyno eich pwnc
- nodwch y materion yr ydych ar fin eu harchwilio
- rhowch ragolwg o sut rydych yn bwriadu ateb y cwestiwn

Prif destun (80%)

- wedi'i rannu'n baragraffau: un paragraff = un ddadl
- y strwythur wedi'i bennu gan y cyflwyniad a'r dull o fynd i'r afael â'r cwestiwn
- rhaid cwmpasu popeth y dywedoch y byddech yn ei gwmpasu yn y cyflwyniad

Casgliad (10%)

- crynhowch eich dadl a'r prif themâu
- Peidiwch â chyflwyno dadleuon newydd

# Paragraffau

Mae paragraffau'n rhoi strwythur i'ch ysgrifennu:

- Maent yn ymdrin ag un prif syniad
- Maent yn cynnwys nifer o frawddegau
- Maent wedi'u fformatio'n gyson
- Mae ganddynt strwythur mewnol


The Topic sentence
States the main idea – a general statement
Explanation or Definition (optional)
Clarifies any difficult or unclear terms in the Topic sentence
Alternatively: introduces the evidence
Evidence
Supports or develops the main idea with facts, examples, experiments, studies, arguments, quotes etc.
Comment
• Explains what the evidence means, & how it relates to your point.
• Supports or develops the evidence with analysis or further info e.g. opposing or contrasting points to broaden or develop the discussion
• If appropriate, mention other evidence (examples/studies/experiments/interpretations) to widen the discussion
Concluding sentence
• States the implications or consequences of the paragraph
• Shows the development of the argument
• Links back to the Topic sentence (may use same or similar key words from the Topic sentence)
• Links forwards to the main idea of the next paragraph
Supporting statements

# Cyfeirio’r darllenydd

- Gwahaniaethau rhwng eich dadleuon a’r enghreifftiau a roddir
- Cysylltiadau rhwng brawddegau sy'n ymwneud â'r un pwynt
- Cysylltiadau rhwng paragraffau yn yr un rhan o'r traethawd
- Sut mae adrannau'n arwain at gasgliad neu ateb





# Byddwch yn feirniadol

# Ysgrifennu beirniadol yn erbyn ysgrifennu disgrifiadol



**Disgrifiadau: maent yn mynegi gwybodaeth am rywbeth, ond nid ydynt yn rhesymu o gwbl – ac nid ydynt chwaith yn llunio barn ar y wybodaeth sydd ganddynt nac yn ei dadansoddi.**

Tom Chatfield, *Critical Thinking*

Dywedir wrth lawer o fyfyrwyr fod eu hysgrifennu'n rhy ddisgrifiadol ac nad yw'n ddigon beirniadol. Ond beth mae hyn yn ei olygu mewn gwirionedd? Mae'r sleidiau nesaf yn disgrifio'r ddau fath o ysgrifennu fel y gallwch weld y gwahaniaeth ac maent yn rhoi enghreifftiau o sut i wneud eich ysgrifennu yn llai disgrifiadol ac yn fwy beirniadol.

## Descriptive writing

This is an essential element of academic writing but it is used to **set the background** and to **provide evidence** rather than to develop argument. When writing descriptively you are **informing** your reader of things that they need to know to understand and follow your argument but you are **not transforming** that information in any way. This is usually writing about things you have read, done (often as part of **reflective writing**) or observed.

Descriptive writing = informing of what you have read, done or seen



## Critical writing

When writing critically, you are **developing a reasoned argument** and participating in academic debate. Essentially you are **persuading** your reader of your position on the topic at hand. This is about taking the information you have described and **using it** in some way. This could be writing things like:

- why it is relevant to your argument,
- how it relates to other literature,
- how it relates to the focus of your assignment
- how a theory can be put into practice,
- why it is significant,
- why you are not persuaded by it,
- how it leads you to reach your conclusion.

Critical writing = using something you have read, done or seen to **persuade** the reader of your position



# Table comparing functions of descriptive and critical writing

The table below gives more examples of the difference between descriptive and critical writing

Adapted from Cottrell 2008:286

| **Descriptive writing** | **Critical writing** |
|---|---|
| States what happened | Identifies the significance of what happened |
| States what something is like | Evaluates the strengths and weakness of something |
| Gives the story so far | Analyses how the story so far impacts on the current state |
| Says how to do something | Analyses why things are done a certain way |
| Explains what a theory says | Shows why a theory is relevant.<br>Identifies the strengths and weaknesses of a theory in practice. |
| Explains how something works | Indicates why something will work (best) |
| Notes the method used | Identifies whether a method was suitable or appropriate |
| Says when something occured | Identifies why the timing is of importance |
| Identifies the different components of something | Weighs up the importance of component parts |
| States options | Gives reasons for selecting each option |
| Lists details | Evaluates the relative significance of details |
| Lists in any order | Structures information in order of importance |
| States links between items | Shows the relevance of links between pieces of information |
| Gives evidence | Argues a case according to the evidence |
| Provides information for comparison | Makes a reasoned judgement on provided information |
| Gives information | Draws conclusions |

# Cyfeirnodi


Author's surname and initial(s)
Year of publication
Title
Edition (if not the first)
Place of publication
Publisher
VERGO, Peter. 1993. Art In Vienna 1898-1918. 3rd edn. London: Phaidon.
comma
full stops
italics
full stops
colon
full stop

# Golygu

- Gadewch beth amser rhwng ysgrifennu a golygu
- Rhowch eich hun yn sefyllfa'r darllenydd:

- A yw popeth wedi'i ddiffinio?
- A all y darllenydd ddilyn eich meddwl?
- Allwch chi grynhoi pwynt allweddol pob paragraff a pham ei fod yn berthnasol i deitl eich traethawd?

- Darllenwch eich traethawd yn uchel a gadewch i'ch cymheiriaid ei ddarllen



# Prawfddarllen

Am beth ydych chi’n chwilio?

- Sillafu
- Gramadeg
- Geiriau coll
- Bylchu
- Atalnodi
- Geiriau a ddefnyddir yn amhriodol neu y tu allan i'r cyd-destun

Printiwch eich aseiniad i’w brawfddarllen.
Gadewch i eraill ddarllen drosto.



